taflen weithgareddau

# Diwrnod allan gyda'r teulu Diofal

Mae Sam a Jo Diofal yn chwarae yng ngardd eu tŷ newydd ar gyrion y dref. Maent yn byw ar stad o dai a gafodd ei hadeiladu ar gaeau ychydig y tu allan i'r dref.

Mae Mam a Dad yn galw arnyn nhw, "Beth am fynd am bicnic heddiw?"

"O ie!" gwaedda Jo.

"Gawn ni fynd at y pwll yn y wlad?" mae Sam yn gofyn. "Mae arna i eisiau rhoi cynnig ar fy ngwialen bysgota newydd."

"Ac mae arna i eisiau casglu anifeiliaid achos rydyn ni'n dysgu am anifeiliaid yn yr ysgol," meddai Jo.

Felly maen nhw'n pacio picnic ac yn rhoi popeth yng nghefn y car. Dydy'r pwll ddim yn bell ond maent yn penderfynu teithio yn y car i arbed cario popeth.

Maent yn cyrraedd y pwll ac mae Sam yn gosod ei wialen bysgota i fyny ar unwaith. Mae Sam yn ceisio dal pysgod ond mae'r lein a'r bachyn yn mynd yn sownd yn y chwyn. Ar ôl tynnu am ychydig funudau mae'r lein yn torri, gan adael y bachyn yng nghanol y chwyn yn y dŵr.

Mae Jo'n penderfynu dringo coed, i edrych am nythod. Mae mwyalchen yn hedfan oddi ar ei nyth pan fydd Jo yn agosáu a gall Jo weld pump o wyau.

Yna mae'r plant yn edrych yn agosach ar y pwll.

"Sam," gwaedda Jo, "edrych, dw i wedi cael hyd i rifft llyffant a phenbyliaid." Mae Jo yn tynnu peth o'r grifft allan o'r dŵr, ei roi mewn jar ac yn gadael y jar wrth ochr y pwll.

"Mae cinio'n barod," galwa Mam.

"Mae 'na frechdanau, creision, iogwrt a photeli o lemonêd," meddai Dad.

Ar ôl cinio, mae Sam yn codi'r sbwriel ac yn mynd ag ef i'r bin wrth ymyl y maes parcio. Mae'r bin yn llawn, felly mae Sam yn gadael y sbwriel wrth ochr y bin.

Ar ddiwedd y dydd, mae'r teulu'n mynd adref yn y car.